

Adolygiad o Sicrwydd ac Aseiad Risg – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Blwyddyn Archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3196A2022

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a berfformiwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir cyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Beth wnaethom ei adolygu a pham	4
Sefyllfa ariannol	5
Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	6
Cynlluniau lleihau carbon	7

Beth wnaethom ei adolygu a pham

- 1 Gwnaethom gynnal y prosiect hwn i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Bu'r prosiect hwn hefyd yn gymorth i ni allu asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.
- 2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd yr ydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg manylach arnynt. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn hydref 2022 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2022.
- 3 Canolbwyntiwyd yn benodol ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:
 - Sefyllfa ariannol
 - Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan gynnwys trefniadau hunanasesu
 - Cynlluniau lleihau carbon
- 4 Roedd ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys sgysiau gyda swyddogion ac adolygu dogfennau perthnasol.
- 5 Mae'r prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg wedi bod yn parhau drwy gydol y flwyddyn. Gwnaethom fwydo canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn ôl i swyddogion wrth i ni ymgymryd â'r gwaith hwn. Gwnaethom hefyd gynnal gweithdy gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Chwefror 2022 lle rhannwyd canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn cysylltiad â rhai agweddau ar y gwaith hwn. Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r gweithdy i gasglu persbectif uwch reolwyr ynglŷn â'r risgiau archwilio allweddol mewn cysylltiad â'r Cyngor ac i lywio ein blaengynllunio.

Sefyllfa ariannol

Mae sefyllfa ariannol uniongyrchol y Cyngor wedi gwella, gyda lefelau uwch o gronfeydd wrth gefn, ond mae angen i'r Cyngor nodi o hyd sut y mae am fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb yn y tymor canolig

- 6 Gwnaethom gwblhau ein hadolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022. Gwnaeth hyn gynnwys ystyried sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor, darparu arbedion a pherfformiad arfaethedig yn erbyn y gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn.

Gyda chymorth cynnydd mewn cyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi cyflawni gwarged ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Swm gwarged 2021-22 yw £3.7 miliwn ar ôl trosglwyddiad i gronfeydd wrth gefn o £6.0 miliwn¹. Bydd £388,000 yn cael ei ychwanegu at gronfa gyffredinol wrth gefn y Cyngor o warged 2021-22, a bwriedir ei gynnal yn unol â'i bolisi cronfeydd wrth gefn. Yn ogystal, cynyddodd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy y Cyngor yn sylweddol yn dilyn blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22. Cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy y Cyngor ar hyn o bryd yw £40.4 miliwn.² 1

- 2 Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi targed arbedion o £6.4 miliwn rhwng 2022-23 a 2024-25. Serch hynny, hyd yn oed os yw'n cyflawni'r arbedion hynny, mae ganddo ddiffyg o £10.3 million o hyd. Nid yw'r Cyngor wedi pennu arbedion arfaethedig ar gyfer 2025-26 eto ac mae ganddo ddiffyg a ragwelir hyd at y dyddiad hwnnw o £16.4 miliwn.
- 3 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen dull tymor hwy o gyflawni ei gynllunio ariannol. Mae'n dechrau cymryd camau i bennu i ba raddau y gall ei Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella helpu i fynd i'r afael â'i ddiffyg ariannol dros gyfnod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â hyn.
- 4 Mae setliad ariannol dangosol Llywodraeth Cymru ar sail Cymru gyfan o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn rhoi rhywfaint o sicrwydd cyllidol dros y tymor canolig. Fodd bynnag, bydd cynllunio ariannol tymor canolig yn parhau i ddibynnu ar ystod o ragdybiaethau. Wrth gyplysu hyn â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol newidiol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol, bydd cynllunio ar gyfer cadernid ariannol a chylchoedd cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i gynghorau.

¹ Yn unol â'r [Datganiad o gyfrifon dros dro](#) (tudalen 8)

² Yn unol â'r [Datganiad o gyfrifon dros dro](#) (tudalen 52)

- 5 Gwnaethom hefyd gyhoeddi [offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol](#) ym mis Chwefror 2022 sy'n cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae'r Cyngor yn gosod trefniadau i sicrhau ei hun ei fod yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

- 6 Gwnaethom adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith er mwyn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021).
- 7 Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adolygu perfformiad ac ymgynghori ac adrodd ar berfformiad drwy hunanasesiad. Mae'n rhaid i gynghorau gyhoeddi hunanasesiad o'u perfformiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Yn ystod 2021-22 mae'r Cyngor wedi cymryd camau i weithredu'r dyletswyddau hunanasesu. Mae'r Cyngor yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad hunanasesu cyntaf ym mis Tachwedd 2022. Bydd hyn yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad drafft gan y Cyngor, gweithdai pwyllgor craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 8 Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei ddyletswydd ymgynghori o dan Ddeddf 2021 trwy ddulliau ymgysylltu presennol â'r undebau llafur, busnesau yn yr ardal leol, trigolion a staff y Cyngor.
- 9 Ystyriwyd strategaeth cyfranogiad cyhoeddus ddrafft y Cyngor - (y mae'r Cyngor yn galw ei Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu) - gan y pwyllgor craffu ar y ganolfan trawsnewid, masnacheiddio a chorfforaethol ym mis Mawrth 2022. Ar adeg ysgrifennu'r erthygl hon, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal gweithdy Cabinet ar y strategaeth ddrafft yn fuan, cyn ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor llawn.
- 10 Mae'r Cyngor wedi diweddarau Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn adlewyrchu Deddf 2021. Mae aelodaeth y Pwyllgor hwn yn cydfynd â Deddf 2021, gyda thraean o'r pwyllgor yn aelodau llyeg. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant rhagarweiniol ar eu swyddogaeth.

Cynlluniau lleihau carbon

Cyd-destun

- 7 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol barodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero-net erbyn 2030, a oedd yn edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030 yn cael ei fodloni. Nododd ein gwaith rwystrau sylweddol cyffredin i symud ymlaen y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd i gyflawni'r uchelgais ar y cyd. Er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, canfuwyd bod yn rhaid iddynt bellach gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth galon eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.³
- 8 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad ganlyinol i weithredu gan gyrff cyhoeddus:
- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb cyfunol drwy gydweithio'n effeithiol;
 - egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder eich gweithredu;
 - mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
 - gwybod bylchau eich sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
 - gwella ansawdd data a monitro i gefnogi eich penderfyniadau.
- 9 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yn eistedd yng nghyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r adroddiad hwnnw'n galw am fwy o arweinyddiaeth gyflymach a chryfach ledled Cymru wrth leihau allyriadau carbon.

Nid yw'r Cyngor wedi cwblhau ei gynllun cyflenwi sero-net ac mae angen iddo roi trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau ei fod mewn sefyllfa i wynebu'r her o gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2030

- 10 Nid oes gan y Cyngor gynllun clir ar gyfer sut y mae'n bwriadu cyrraedd targed sero-net 2030, ond ar hyn o bryd mae'n drafftio cynllun cyflenwi sero-net a fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi nodi rhai rhwystrau sylweddol rhag cyrraedd targed 2030 megis capasiti, arbenigedd a

³ Archwilio Cymru, [Ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar gyfer sector cyhoeddus sero net yn cael ei gyflawni, yn ôl Archwilydd General, Gorffennaf 2022.](#)

chyllid. Er gwaethaf y rhwystrau hynny, nid yw'r risg o ddatgarboneiddio yn cael ei adlewyrchu eto yng nghofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor.

- 11 Un o amcanion llesiant y Cyngor yw 'lles amgylcheddol' ac mae'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella yn cynnwys camau gweithredu mewn cysylltiad â datgarboneiddio. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cynllun cyflenwi arno ar gyfer yr agenda sero-net sy'n adeiladu ar y camau gweithredu presennol i leihau allyriadau carbon. Bydd angen i'r Cyngor ystyried sut y gall ei gynllun cyflawni sero-net sydd ar ddod gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol, sut y bydd cyflawni yn effeithio ar ei amcanion llesiant eraill a'i flaenoriaethau ehangach, a sut y bydd cyflawni yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.
- 12 Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn grwpiau swyddogion Cymru gyfan yn ymwneud â'r agenda datgarboneiddio. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod ganddo fwy i'w wneud o ran ei gydweithio allanol ar yr agenda hon. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod angen iddo gynnwys trigolion yn fwy yn ei gynlluniau a bod hynny'n cynnwys amrywiaeth y boblogaeth i sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor cynaliadwy. Hyd yn hyn, bu ychydig o hyfforddiant ar gael i swyddogion ac aelodau. Mae'r Cyngor yn ystyried modiwl e-ddysgu er mwyn gwella ei gynnydd hyfforddiant. Mae bylchau sgiliau yn genedlaethol y bydd angen i'r Cyngor, yn gyffredin â chynghorau eraill, geisio'u lliniaru wrth i'r agenda ddatgarboneiddio gynyddu. Yn unol â'r angen am sgiliau penodol, mae'r Cyngor yn bwriadu penodi rheolwr datgarboneiddio. Bydd angen i'r Cyngor ddeall yn well y goblygiadau cyflawni'r cynllun cyflenwi sero-net o ran adnoddau, o safbwynt staff a'r goblygiadau ariannol ehangach os yw am wireddu ei gynllun yn llwyddiannus. Er mwyn bodloni ei uchelgais sero-net, mae angen i'r Cyngor gyfrifo costau ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.
- 13 Ar ôl cwblhau'r cynllun cyflenwi sero-net, mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu grŵp i oruchwylio'r gwaith o'i gyflwyno. Bydd yn bwysig i'r Cyngor fonitro ac adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hir yn y cynllun cyflenwi sero-net. Y bwriad yw darparu diweddiadau rheolaidd i Fwrdd Adfer, Trawsnewid a Gwella y Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor hefyd ystyried y swyddogaeth y mae ffora eraill, fel craffu, yn ei chwarae wrth fonitro'r cynllun cyflenwi sero-net i sicrhau goruchwyliaeth briodol o weithgarwch y Cyngor.

Argymhellion

Arddangos 1: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion

- A1 Er mwyn cyrraedd ei uchelgais sero-net, mae angen i'r Cyngor gyfrifo costau ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.